# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Asedau Segur

**Ymateb gan CGGC**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

**Prif argymhellion**

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol ymrwymo i ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â'r sector i lunio methodoleg gyllido sydd â'r nod o gynyddu effaith hirdymor y cyllid hwn yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

**Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad**

**Plant a phobl ifanc**

**A oes unrhyw faterion penodol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i'r afael â hwy?**

Ymateb CGGC:

Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

## Yr argyfyngau hinsawdd a natur

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylid parhau i wario arian o'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i ddefnyddio hefyd i fynd i'r afael â'r argyfwng natur?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

**A oes unrhyw faterion amgylcheddol penodol eraill y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i'r afael â hwy?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

## Cynhwysiant ariannol

**A ydych yn credu y dylid defnyddio arian o'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru hefyd i gefnogi mesurau i hybu cynhwysiant ariannol?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

**A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â chynhwysiant ariannol y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng**

**Nghymru fynd i'r afael â hwy?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

## Gweithredu Cymunedol

**A ydych yn credu y dylid defnyddio arian o'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru hefyd i gefnogi mesurau i hybu gweithredu cymunedol?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

**A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â gweithredu cymunedol y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i'r afael â hwy?**

Ymateb CGGC:
Dylid cael cyngor arbenigol gan fudiadau o'r sector gwirfoddol sy'n arbenigo yn y pwnc drwy gydol o broses ddethol a dyrannu. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) yn cyflwyno cyfle da i drafod a chael ymgysylltiad trylwyr.

## Dewisiadau

**A hoffech awgrymu achos arall/achosion eraill a ddylai, yn eich tyb chi, dderbyn cyllid gan y Cynllun Asedau Segur yng Nghymru?**

Ymateb CGGC:
Rydym yn siomedig nad oes adolygiad mwy trylwyr o'r achosion posibl y gallai'r cyllid hwn eu cefnogi, gan gynnwys proses ymgynghori cyn creu rhestrau byr ar gyfer y pedwar categori a dadansoddiad o'r prosesau penderfynu. Dylid fod wedi

ymgynghori â mudiadau arbenigol a chyflwyno eu mewnbwn nhw, ynghyd â'ch asesiad, ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Byddai hyn wedi galluogi pobl i ymgysylltu'n well â'r ymgynghoriad ac wedi caniatáu mewnbwn mwy adeiladol gan y cyhoedd ehangach. Fel y mae, mae cwmpas yr ymgynghoriad yn rhy gul ac nid oes digon o dryloywder yn y gwaith rhagarweiniol.

**Materion eraill**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?**

Ymateb CGGC:
Rydym yn siomedig tu hwnt nad oes ymgynghoriad wedi'i ystyried ar sut y caiff yr arian ei ddosbarthu.

Teimlwn fod cwmpas yr ymgynghoriad hwn yn gul iawn ac nid yw'n ystyried yr hyn a ganiateir gan y ddeddfwriaeth, Adran 16 is-adran (5) o Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (Saesneg yn unig) sy'n nodi:

*At ddibenion y Rhan hon, mae dosbarthu arian ar gyfer bodloni gwariant o ddisgrifiad arbennig yn cynnwys dosbarthu arian at y diben o sefydlu, neu gyfrannu at, waddolion (gan gynnwys gwaddolion parhaol) mewn cysylltiad â gwariant o'r disgrifiad hwnnw.*

Hoffem amlygu bwlch yn y farchnad gyllido sy'n effeithio ar fudiadau gwirfoddol drwodd draw yng Nghymru ac awgrymu model cyllido arall i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r diffyg cyllid 'craidd' hirdymor, anghyfyngedig yn broblem hirsefydlog i'r sector gwirfoddol. Mae'n cyfyngu ar allu mudiad i gynllunio'n strategol, i gynnal y gwasanaethau a ddarperir ar lefel gyson, ac i gadw eu gweithlu hynod fedrus. Mae cyllid 'prosiect' tymor byr yn cadw mudiadau i fynd, ond nid yw'n eu galluogi i gael yr effaith fwyaf bosibl, i gyflogi staff codi arian arbenigol ac i amrywiaethu eu ffrydiau incwm yn yr hirdymor. Rydym wedi croesawu ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i gyllid mwy hirdymor o dan rai portffolios, ond nid ydym wedi'i weld yn cael ei gymhwyso'n gyson eto.

Cadarnhaodd adroddiad Uchel ac yn Groch Sefydliad Cymunedol Cymru yr anghenion hyn a llywiodd yr adroddiad eu penderfyniad i ddechrau darparu cyllid craidd anghyfyngedig. Mae mudiadau eraill, fel y 'Postcode Community Trust', hefyd wedi mabwysiadu'r model hwn.

Rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol nid yn unig ystyried ble i wario'r cyllid hwn ond hefyd *sut* i'w wario. Mae hwn yn gyfle gwych i symud at fodel cyllido anghyfyngedig, mwy hirdymor.

Gellid defnyddio'r cyllid newydd hwn i fynd i'r afael â nifer o feysydd datblygu strategol ar gyfer y sector drwy fuddsoddi'n briodol mewn:

- Digidol a dylunio gwasanaethau
- Tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr
- Amrywiaethu strategaethau incwm a chynyddu cynaliadwyedd

Byddai galluogi mudiadau i fuddsoddi yn y meysydd datblygu hyn yn effeithio'n bositif ar iechyd cyffredinol y sector gwirfoddol yng Nghymru, ac felly ar lesiant staff a gwirfoddolwyr y sector, a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Digidol a dylunio gwasanaethau

Dengys gwaith ymchwil diweddar a gafodd ei wneud gan ProMo-Cymru a Dotiau fod gan fudiadau gwirfoddol yng Nghymru lai o fynediad at gyllid ar gyfer datblygu digidol na gwledydd eraill y DU.[1] Er enghraifft, nid oedd cyllid ar gyfer trawsnewid digidol cyflym gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol drwy'r Catalydd ar gael i fudiadau yng Nghymru, gan olygu eu bod '*yn cael eu gadael ar ôl gan eu cyfatebwyr yn Lloegr a'r Alban*.' Canfu'r un ymchwil fod 69% o'r ymatebwyr angen cyllid i ddatblygu eu gwasanaethau digidol ymhellach. Roedd eu hanghenion buddsoddi yn cynnwys:

- meddalwedd a thrwyddedau
- caledwedd (sydd angen ei newid yn rheolaidd er mwyn parhau i fod yn ddiogel ac yn effeithlon)

[1] Darganfyddiadau Digidol ar gyfer Trydydd Sector Cymru (ProMo-Cymru a Dotiau, 2021)

- ail-ddylunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu hadolygu ac i lywio sut y caiff gwasanaethau eu darparu (boed hynny drwy ddatrysiadau digidol neu fel arall)

Mae Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru yn nodi bod gan *'y digidol y potensial i roi cyfle inni wella'n profiad o'r byd: o gyfoethogi bywydau pobl, cryfhau ein gwasanaethau cyhoeddus a gwaith y llywodraeth, yn ogystal â helpu busnesau i addasu i'r dyfodol.'* Nid yw hyn fymryn yn llai gwir i'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae adnoddau i fuddsoddi mewn sgiliau digidol hefyd yn faes o angen mawr i'r sector gwirfoddol. Amlygodd adroddiad Sgiliau Digidol Elusen 2020[2] fod cyfranogwyr yr arolwg o bob rhan o'r DU yn nodi 'diffyg sgiliau staff' fel yr ail rwystr mwyaf i 'fanteisio i'r eithaf ar ddigidol' (dim ond ar ôl cyllid). Yn y cyfamser, teimlai 83% o'r ymatebwyr eu bod yn 'eithaf da i wael' am ddarparu gwasanaethau digidol, gyda 27% yn canslo gwasanaethau am nad oedd ganddynt y sgiliau na'r dechnoleg angenrheidiol. Nododd 78% o'r ymatebwyr hefyd fod ganddynt sgiliau 'eithaf da i wael' o ran codi arian yn ddigidol.

Wrth roi tystiolaeth i adolygiad y Senedd o effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol, amlygodd Conffederasiwn GIG Cymru fod dulliau digidol wedi golygu bod mwy o bobl wedi gallu cael eu cefnogi dros ardal ddaearyddol ehangach 'heb yr anawsterau teithio a thrafnidiaeth y gellir eu profi mewn rhannau gwledig o Gymru'.[3] Ond, dylid ystyried yr holl sylwadau ynghylch y gwelliannau a welwyd wrth ddarparu gwasanaethau o bell ochr yn ochr â'r bylchau mewn llythrennedd digidol a mynediad sydd hefyd i'w gweld fynych ar draws cymunedau yng Nghymru.

<u>Tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</u>

Noda Egwyddor 6 o'r Cod Llywodraethu i Elusennau: *'Mae amrywiaeth, yn yr ystyr mwyaf eang, ar y bwrdd yn bwysig gan ei fod yn arwain at benderfyniadau mwy cytbwys. Lle bo'n briodol, mae hyn yn cynnwys y cymunedau a'r bobl y mae'r elusen*

[2] Adroddiad Sgiliau Digidol Elusen 2020 (Saesneg yn unig) (Skills Platform, 2020)
[3] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru: Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol (Senedd Cymru, 2021)

*yn eu gwasanaethu, ac yn eu rhoi nhw'n ganolog iddi. Mae hyn yn cynyddu dilysrwydd a dylanwad yr elusen.'*[4]

Mewn elusen lai o faint, yn aml, bydd gan y sawl sy'n ymgymryd â rôl y prif weithredwr / rheolwr / cyfarwyddwr lliaws o gyfrifoldebau y tu hwnt i'r hyn y disgwylid o'r un deiliad swydd mewn elusen mwy o faint. Er enghraifft, gallai hefyd fod yn brif godwr arian a/neu'n rheolwr cyfleusterau. Yn aml, cyllidir y rolau hyn fesul tamaid drwy adferiad cost lawn o gronfeydd a phrosiectau lluosog. Oherwydd hyn, ychydig iawn o amser gall y deiliad swydd ei fuddsoddi mewn adolygu arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ail-ddylunio dulliau recriwtio ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr er mwyn denu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr.

## Recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr

Mae'r sector gwirfoddol yn cael anhawster recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr (gyda'r un olaf yn argyfwng byd-eang ers y pandemig). Dywedodd 90% o'r ymarferwyr y gwnaethom eu harolygu ym mis Tachwedd 2023 eu bod wedi cael heriau o ran recriwtio gwirfoddolwyr yn y chwe mis diwethaf.[5] Mae'r diffyg incwm anghyfyngedig sydd ar gael i elusennau yn cyfyngu ar y camau y gallant eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau y maen nhw'n eu hwynebu wrth geisio denu a chadw staff a gwirfoddolwyr.

I staff, mae mynychder cyllid prosiect a chontractau sector cyhoeddus ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn arwain at:

- cyfraddau uchel o gontractau cyfnod sefydlog
- hysbysiadau hwyr o derfynu/adnewyddu contract
- cyflogau sy'n aros yn eu hunfan

Mae'r holl bethau hyn yn gwneud cyflogaeth yn y sector hwn yn llai deniadol. Yn 2022, canfu Charity Job fod 35% yn fwy o swyddi gwag wedi'u hysbysebu ar eu gwefan yn 2019, a'u bod wedi derbyn 13% yn llai o geisiadau.[6] Nodwyd problemau

[4] Y Cod Llywodraethu i Elusennau; Egwyddor 6. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (Grŵp Llywio Llywodraethiant Da, 2017)
[5] 'Mewn argyfwng, gwisgwch eich masg ocsigen eich hun yn gyntaf' (CGGC, 2023)
[6] How Charity Salaries Have Changed: Key insights from the CharityJob Salary Report 2023 (Saesneg yn unig) (CharityJob, 2023)

ynghylch cyflog fel enghraifft gan nifer o dimau staff elusennau a oedd yn protestio am gyflogau gwell yn ystod 2023 (er enghraifft, Shelter, Oxfam, St Mungo's, Cyngor ar Bopeth Hull ac East Riding). Mae gwaith ymchwil gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) wedi dangos mai'r sector elusennau yw'r un lleiaf tebygol o adolygu strwythurau cyflog er mwyn sicrhau tegwch.[7]
Mae rolau cydlynwyr gwirfoddolwyr , ochr yn ochr â chodwyr arian, yn anodd eu cyllido drwy adferiad cost lawn a chyllid neu gontract prosiect. Yn aml, ni ystyrir eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau. Heb y staff (cydlynwyr penodedig neu fel arall) i hyrwyddo cyfleoedd, recriwtio, rheoli, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr, mae elusennau yn cael anhawster defnyddio gwirfoddolwyr yn effeithiol a manteisio i'r eithaf ar eu heffaith.

Amrywiaethu incwm a chynyddu cynaliadwyedd

Yn aml, mae Elusennau yng Nghymru yn dibynnu ar incwm grant. Mae cynni, Brexit, pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith niweidiol ar y grantiau sydd ar gael i'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Wrth i ymddiriedaethau, sefydliadau, arian grant cyhoeddus a chontractau leihau o ran gwerth a nifer, mae'n dod yn fwyfwy pwysig i fudiadau amrywiaethu eu ffynonellau o incwm. Drwy fuddsoddi yn eu hunain yn y meysydd a amlinellwyd yn yr ymateb hwn, gall mudiadau gwirfoddol ddod yn fwy gwydn a chynaliadwy.

Mae'n anodd denu cyllid ar gyfer rolau codi arian a chynhyrchu incwm o fewn mudiadau gwirfoddol. Ni allant gael eu cyllido drwy adferiad cost lawn na chontractau sector cyhoeddus am nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaethau bob dydd a ddarperir. Mae sefydlu rôl codi arian newydd yn gofyn am fuddsoddiad heb wybod ar y dechrau a fydd elw sefydlog neu hysbys, am fod angen amser ar y codwr arian i brofi gweithgareddau, casglu data am gynulleidfaoedd a rhoddwyr, a datblygu'r cydberthnasau hanfodol sy'n galluogi incwm i gael ei gynhyrchu. Fel arfer, mae rolau codi arian yn cymryd nifer o flynyddoedd i gynhyrchu incwm gwarged y tu hwnt i'r buddsoddiad cychwynnol hwnnw, ac mae hyn dim ond yn bosibl i fudiadau gwirfoddol sydd â digonedd o arian wrth gefn neu incwm anghyfyngedig.

[7] Reward Management Survey: Focus on employee benefits (Saesneg yn unig) (CIPD, 2022)

Gwnaeth CGGC weinyddu Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector (TSRF) yn ystod pandemig Covid-19 ar ran Llywodraeth Cymru. Cafodd y categori 'Ffynnu' yng ngham 3 y gronfa ei ddylunio i gynorthwyo mudiadau i fuddsoddi mewn gweithgareddau newydd neu ychwanegol a fyddai'n amrywiaethu ffrydiau incwm, gan gynhyrchu elw y tu hwnt i'r cyfnod cyllido. Nid yw hwn yn fodel cyllido cyffredin o fewn y sector, yn enwedig yng Nghymru, ond mae'r canlyniadau'n dweud y cyfan.

Gwnaethom ddal i fyny â derbynyddion y categori Ffynnu i ddeall effaith y cyllid. Roedd 86% o'r ymatebwyr a ddefnyddiodd y cyllid i gyflogi codwr arian (amser llawn neu ran-amser) yn credu ei fod yn ddefnyddiol 'iawn' neu'n 'eithriadol' o ddefnyddiol, gydag £129,766 mewn incwm ychwanegol wedi'i gynhyrchu fesul swydd ar gyfartaledd (ar ôl tynnu'r costau cyflog o'r swydd).

Gwnaeth un o'r ymatebwyr grynhoi barn llawer yn y sector gwirfoddol yn dda:

*"Mae'n anodd iawn cael cyllid ar gyfer y rôl hon, er mai hon yw achubiaeth y rhan fwyaf o fudiadau. Yn aml, cyllid tymor byr a roddir ar gyfer y rolau, ac nid yw hyn yn helpu gyda chynaliadwyedd."*

Rydym yn gobeithio gweld y ffrwd cyllido newydd hon yn cael ei ddosbarthu mewn modd mentrus ac arloesol. Modd sy'n blaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd datblygu sy'n fwyaf hanfodol i gynaliadwyedd yr holl sector gwirfoddol yng Nghymru.